# MESUR IECHYD MEDDWL (CYMRU) 2010

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

***Adran 37 – Dyletswydd i roi gwybodaeth am eiriolwyr iechyd meddwl annibynnol i gleifion cymwys Cymru dan orfodaeth***

66. Mae'r person(au) sy'n gyfrifol am sicrhau bod y claf yn deall bod cymorth o'r fath ar gael iddo yn cael ei adnabod fel y 'person cyfrifol'. Mae adran 130K(2) yn diffinio pwy yw'r person cyfrifol mewn perthynas â'r grwpiau gwahanol o gleifion cymwys Cymru dan orfodaeth. Mae'r person cyfrifol hefyd yn gorfod rhoi gwybodaeth ysgrifenedig am wasanaeth yr IMHA i berthynas agosaf claf cymwys dan orfodaeth, ei roddai neu ei ddirprwy (os oes un).